



POLISI CYDRADDOLDEB

Bwriad Ysgol Y Strade yw cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol heb wahaniaethu ar sail rhyw, hil, crefydd, anabledd na dosbarth cymdeithasol.

Credwn fod gweithredu cyfle cyfartal da yn gydradd â gweithredu addysgol da, ac yn sail i ddatblygiad sgiliau a thalentau pob unigolyn.

Ceisiwn godi ymwybyddiaeth o ragfarn o bob math, gan wrthweithio agweddau negyddol sy'n ddinistriol i'r unigolyn a chreu yn eu lle ddelweddau mwy cadarnhaol. Ein nod yw sicrhau cymuned wedi ei seilio ar barch tuag at ein gilydd ac sy'n cynnig cyfle teg i bawb.

Mae'r egwyddorion hyn yn ffurfio sail cadarn i ethos a bywyd yr ysgol yn ogystal â thrafodaeth bellach a gweithredu clir.

Mae Ysgol Gyfun Y Strade yn ymrwymo i ddarparu addysg o'r safon uchaf bosibl i bob disgybl a byddwn yn ceisio diwallu anghenion pawb heb unrhyw fath o wahaniaethu annheg.

NOD

- Gweithredu i sicrhau nad oes neb yn ein cymuned o dan anfantais oherwydd ein gweithredoedd.
- Sefydlu safonau ymddygiad a fydd yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael cyfle cyfartal i ddysgu a defnyddio ystod o adnoddau addas.

AMCANION

- Datblygu awyrgylch cyfeillgar ac agored lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.
- Datblygu amgylchedd dysgu lle pennir disgwyliadau cyson uchel ar gyfer pob disgybl beth bynnag fo'i oed, rhyw, hil, gallu neu gefndir cymdeithasol.
- Datblygu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i bawb yn ddiwahân ac yn diwallu anghenion pawb.
- Herio gwahaniaethu amhriodol a hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol.
- Atal disgyblion neu oedolion rhag dioddef aflonyddu, yn enwedig oherwydd eu bod yn perthyn i grŵp penodol (oherwydd eu rhyw, oed, hil ac ati) a rhoi trefniadau ar waith i'w galluogi i dynnu sylw at aflonyddu a chymryd camau ar unwaith i ymdrin â chwynion a digwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion neu oedolion.
- Gweithio'n deg a darparu cyfle cyfartal i bawb wrth benodi a datblygu staff yn unol â Safonau Cyfle Cyfartal Cyngor Sir Caerfyrddin.



- Cynnwys cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.
- Monitro ac adolygu perfformiad yn rheolaidd.
- Llunio polisiau a chynllun gweithredu mewn ymateb i ymgynghori gyda disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, staff/gweithwyr ac aelodau o'r gymuned eang y mae'r ysgol yn rhan ohoni.
- Hyrwyddo cysylltiadau da gyda phobl a'r gymuned.

Byddwn yn:

- gwrthwynebu pob math o wahaniaethu annheg, fel unigolion ac fel sefydliad, boed hwnnw'n wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, ar sail rhyw, lliw, cefndir ethnig neu genedl, crefydd, anabledd, cefndir cymdeithasol, oed, golwg, gallu, iaith, barn wleidyddol, maint, neu dueddiad rhywiol.
- herio rhagfarn neu syniadau afresymol ynghylch grwpiau mewn cymdeithas ac yn ceisio meithrin goddefgarwch a pharodrwydd i dderbyn gwahaniaethau.
- hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth mewn cymuned a thu hwnt.
- ceisio bod yn gymuned gynhwysol, yn ystyr ehangaf y gair.
- addasu'r adeilad mewn ymateb i unrhyw anabledd corfforol yn ôl y galw.
- paratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob agwedd ar waith yr ysgol, pob aelod a phawb sy'n ymuno â ni o bryd i'w gilydd gan gynnwys ymwelwyr.

Mae'r polisi'n berthnasol i brif weithgareddau'r ysgol fel a ganlyn:

- darparu addysg gyflawn i ddisgyblion
- cyflogi staff a chontractwyr
- casglu data
- ymateb i achosion o wahaniaethu annheg

Bydd aelod o'r Uwch Dim Arwain sy'n gydgyssylltydd cyfle cyfartal yn goruchwyllo'r polisi ac yn monitro'i effaith. Bydd y polisi'n rhan o weithdrefnau arferol yr ysgol o ran monitro ac adolygu. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i gynnwys y materion hyn yng ngweithdrefnau monitro'r adran.

Diweddarwyd:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:	
Llofnod y Cadeirydd:	